

## Dathlu Diwydiant a Diwylliant Amaethyddol Cymru Sioe Frenhinol Cymru – 22-25 Gorffennaf

Yr wythnos nesaf bydd amaethwyr o bob cwr o'r byd yn cyfarfod yn Llanelwedd i ddathlu diwydiant creiddiol i gefn gwlad Cymru. Ond er y dathlu mae cymylau duon ar y gorwel.

### Cyfnod Heriol i'r Diwydiant Amaeth

Tybed a oes yna unrhyw ddiwydiant sydd wedi newid gymaint dros y chwarter canrif ddiwethaf na'r diwydiant Amaeth. Gwelwyd nifer fawr o'r ffermydd teuluoel yn cael eu prynu gan unedau mwy a hynny yn aml er mwyn gwneud eu busnesau yn fwy cystadleuol i wynebu'r dyfodol. Golyga hyn, er hynny, fod y cyfle i berson ifanc gychwyn ffermio, heb law fod yna olyniaeth naturiol, yn mynd yn anoddach o flwyddyn i flwyddyn.

### Diwydiant Llaeth

Yn ddi-os yn y diwydiant llaeth y gwelwyd y newid mwyaf trawiadol. Bellach, mae cant o wartheg godro yn gymharol fach. Gwyddom am rai unedau yng Nghymru sydd yn godro dros 2000 o wartheg – mwy fel ffactri efallai !! Wrth i faint yr unedau llaeth gynyddu, golyga hyn fuddsoddiad aruthrol mewn adeiladau, parlwr godro, llafur a systemau ar gael gwared ar slyri sydd yn bwnc llosg y dyddiau yma. Yn yr unedau mawr, caiff



*“oherwydd eiddof fi holl fwystfilod y goedwig, a'r gwartheg ar fil o fryniau. Yr wyf yn adnabod holl adar yr awyr, ac eiddof fi holl greaduriaid y maes.”*

Salm 50:10

nifer o'r gwartheg eu cadw i fewn drwy gydol y flwyddyn. Mae llawer o weithwyr o dramor yn gweithio ar ein ffermydd llaeth ar hyn o bryd. Ond wrth edrych i'r dyfodol yn dilyn Brexit mae yna ofid y bydd yn fwy anodd i ddenu gweithwyr ar ein ffermydd llaeth.

Ond mae gan y sector yma eu phroblemau. Mae pris y llaeth yn medru amrywio yn sylweddol ac mae hyn yn gwneud cynllunio ymlaen yn anodd. Cafodd y sychder yr haf diwethaf effaith niweidiol ar nifer o'n cynhyrchwyr ac oherwydd hyn, bu gostyngiad yn incwm nifer o ffermwyr o tua 23 y cant. Wedi dweud hynny, dyma'r sector fwyaf sefydlog ar hyn o bryd wrth edrych i'r dyfodol.

### Diwydiant Cig Eidion a Defaid.

Heb os yn y sector hwn ceir yr ansicrwydd mwyaf am yr hyn fydd yn dilyn Brexit gan fod gymaint o'n cynnyrch ni yn cael eu allforio i Ewrop. Awgrymir y bydd rhaid talu tariff o dros 40 y cant i werthu i Ewrop.

(parhad ar dudalen 8)

## Croesawu yn y Gymanfa Gyffredinol



Bob blwyddyn yn y Gymanfa Gyffredinol cawn gyfle i groesawu gwahoddedigion sy'n cynrychioli enwadau eraill yng Nghymru, a thu hwnt, i'n plith. Cawn ein hatgoffa drwy hyn nad corff ynysig, bychan a di-nod ydym, ond ein bod yn perthyn i dystiolaeth cenedlaethol, rhyng-enwadol a rhyng-genedlaethol.

Eleni cawsom gyfle i groesawu (o'r chwith i'r dde): Mrs Margaret Estill a Mr Derek Estill (URC), Parch Ddr. William Henry ynghyd â'i fab Callum a Mrs Nora Henry (Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon); Y Gwir Anrhydeddus Colin Sinclair a Mrs Ruth

Sinclair (Eglwys Bresbyteraidd yr Alban); Parch Ddr Ian Morris (Yr Eglwys Fethodistaidd) y Llywydd y Parch Brian Matthews a Mrs Beryl Matthews; Parch Meirion Morris (Ysgrifennydd Cyffredinol); Parch S. Lyttan (Gogledd-Ddwyrain yr India); Canon Sue Huyton (Eglwys yng Nghymru); Parch Jill Hayley Harris (Llywydd Undeb yr Annibynwyr); y Tad Adrian Morrin (Swyddog Eciwmenaid Esgobaeth Gatholig Rhufeinig Wrecsam); Mr Peredur Owen Griffiths (Cytûn); Parch Aled Davies (Llywydd Undeb y Bedyddwyr); Mr Rheinallt Thomas (Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru).

# Ydych chi'n "gnonyn aflonydd"?



Ydych chi'n "gnonyn aflonydd"? Ydych chi'n hoff o "ddwlo" os oes gennych chi bensil a phapur wrth law? Os ydych chi angen rhoi rhyw declyn at ei gilydd, ydych chi yn un am edrych ar y cyfarwyddiadau, neu yn dechrau rhoi'r darnau at ei gilydd yn syth?

Mae pawb ohonom yn rhyfeddol o wahanol yn ein doniau, ein cymeriadau ac yn y ffordd y byddwn yn prosesu gwybodaeth ac yn "gwneud" pethau.

Y diwrnod o'r blaen, cefais sgwrs ddifyr iawn gyda chyfeilles oedd yn sôn am y ffordd arbennig mae hi'n rhoi'r dillad ar y lein, hyd yn oed pa liwiau pegiau oedd yn eu defnyddio. Roedd hyn wedi creu peth difyrwch i'w chymdoges un diwrnod pan oedd yn cyfarwyddo ei gŵr wrth iddo roi'r dillad ar y lein yn ei lle!

Yn nofel enwog Daniel Owen, "Rhys

Lewis", mae Wil Bryan yn rhoi cyngor i'r pregethwr ifanc gan ei annog i siarad yn "normal" yn y pulpud. Tybed a fyddwn ni, pan yn gwisgo ein dillad Dydd Sul ac yn cychwyn am y capel, yn newid ein cymeriad bob dydd i gydymffurfio â threfn y capel?

I'r genhedlaeth iau, y rhai ieuengach na'r rhai ohonom fu'n brwydro am gael gwisgo "jîns" i fynd i'r capel, mae ffurf draddodiadol ein gwasanaethau yn fyd dieithr. Ond, a bod yn onest a theg, nid y genhedlaeth iau yn unig sydd angen amrywiaeth yn y ffordd y byddwn yn addoli. Efallai mai chi ydi'r "cnonyn aflonydd" a fuasai'n mwynhau amrywiaeth o fynegiant yn yr oedfa. Efallai y buasai rhywbeth mor syml a "dwlo'r" bregeth ar bapur yn eich cynorthwyo i ddeall a dilyn y neges yn well, efallai y buasech yn mwynhau bod yn rhan o gyflwyniad

dramatig o'r darlenniad o'r Beibl, neu efallai y buasech yn gwerthfawrogi ymateb mewn gweddi trwy weithgareddau gweddi creadigol.

Un o'r llefydd amlycaf i Iesu ddangos ffordd o "wneud" arbennig yw'r cymun – "gwnewch hyn er cof amdanaf" (Luc 22:19). Rydym yn **bwytar** bara ac yn **yfed** y gwin er cof amdano. Mae'n amser mor nerthol a dwfn, yn gyfle arbennig i fyfyrto ar ei gariad a'i aberth trosom.

I'r rhai ohonom sydd ynglŷn â pharatoi a threfnu oedfaon, mae'n werth cymryd cam yn ôl ambell waith, a meddwl am yr amrywiaeth hyfryd o bobl fydd yn y gynulleidfa, ac i feddwl am ffyrdd gwahanol i gyflwyno'r Efyngyl iddyn nhw. Ydi, mae'n golygu ychydig mwy o waith, ond gall hefyd agor ffordd i gynnwys mwy o'r gynulleidfa a dyfnhau eu profiad a'u ffydd.

Buaswn wrth fy modd yn trafod ymhellach os buasai gennych ddi-ddordeb.

**Nia W Williams**

**Arweinydd Tim Plant ac Ieuenctid**  
nia.williams@ebcpcw.cymru

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwr o angenheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: [goleuad@ebcpcw.cymru](mailto:goleuad@ebcpcw.cymru)

Hysbysebion i Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD. (01286) 672018. e bost: [goleuad@btconnect.com](mailto:goleuad@btconnect.com)

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.

## Dathlu Diwydiant a Diwylliant Amaethyddol Cymru

(parhad o dudalen 1)

Anodd gweld ar hyn o bryd sut y gall nifer o'r ffermwyr teuluol barhau o dan y fath amgylchiadau a hyn. Syndod i mi felly oedd deall fod llawer o gynhyrchwyr yn y sector yma wedi pledleisio i adael gan gofio y bu arian o Ewrop yn sylfaen bwysig i gynnal ffermydd cefn gwlad Cymru dros y blynyddoedd.

### Y Ffordd Ymlaen?

Mae'n debyg y bydd y taliad sengl i ffermwyr yn dod i ben a bydd unrhyw gymorth yn seiliedig ar gynlluniau amgylcheddol. D'oes dim manylion hyd yma sut y mae'r cynllun yma yn mynd i weithio a faint bydd yn medru manteisio ar y cymorth ariannol fydd ar gael. Mae yna sôn y bydd mwy o bwyslais ar blannu coed. Ond gobeithio na welwn ni sefyllfa yn dilyn y gofid yn y gerdd Rhydcymerau gan Gwenallt: "Coed lle bu Cymdogaeth, Fforest lle bu ffermydd".

Yn naturiol, mae yna fwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd ond bydd angen cydbwysedd synhwyrol mewn unrhyw gynlluniau i'r dyfodol rhwng cynhyrchu bwyd o safon a gwarchod natur o'n cwmpas.

Mae yn gyfnod heriol felly o'n blaenau, yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'n anodd cynllunio i'r dyfodol. Mae yn gyfnod heriol hefyd i'r ddwy Undeb Amaethyddol i frwydro dros ffyniant ein diwydiant yng Nghymru er mwyn sicrhau bywoliaeth deg i'r teuluoedd hynny sydd yn cynhyrchu bwyd o safon mewn byd lle'r mae'r boblogaeth yn cynyddu yn flynyddol. Mae'r sialens yn un enfawr.

**Twynog Davies**  
**Cyn swyddog dros Faterion**  
**Cymdeithasol a Gwledig**  
**ADAS Cymru**

ISSN 0017-1700



9 770017 170003